CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 29 Medi 2022: cofnodion

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 29 Medi 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Ionawr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Ionawr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


1. Croeso

2. Y diweddaraf ar gyllid gwledig

3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

4. Diweddariad llywodraeth leol

5. Trafodaeth agored

6. Diweddariad ar Horizon Europe a Cymru Ystwyth

7. Unrhyw fusnes arall a chyfarfodydd y dyfodol

Atodiad A: rhestr o mynychwyr



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 1. Croeso

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy ddiolch i'r aelodau am eu presenoldeb a chroesawu cynrychiolwyr llywodraeth leol – Simon Gale (RhCT), Carwyn Jones-Evans (Ceredigion), Elliott Williams (Abertawe) a Sioned Williams (Gwynedd) – a ymunodd â'r cyfarfod i roi diweddariad ar ddatblygiadau gyda'r Gronfa Ffyniant a Rennir (SDD) ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

•Roedd y Cadeirydd yn annog aelodau o sectorau eraill i rannu eu profiad hefyd o gysylltu â'r SPF a nododd y byddai trafodaeth agored yn dilyn y diweddariad gan lywodraeth leol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o 6 Gorffennaf heb sylw pellach.

# 2. Y diweddaraf ar gyllid gwledig

Nododd y Cadeirydd fod cais wedi ei wneud yn ystod y cyfarfod diwethaf am ddiweddariad ar gyllid gwledig ôl-UE, ac fe gyflwynodd James Burgess (JB) o Is-adran Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.

Dywedodd JB fod prosiectau Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 (CDG) yn dod i ben ym mis Mehefin 2023, gyda'r rhaglen ei hun yn cau ym mis Rhagfyr 2023.

Mae cronfeydd gwledig newydd gan Lywodraeth y DU rhwng 2021-22 a 2024-25 wedi cynnwys 'debydu' taliadau parhaus yr UE gan arwain at oddeutu £253m yn llai o gyllid ar gael i Gymru. Mae'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU hefyd yn cael ei neilltuo ar gyfer 'ffermwyr a rheolwyr tir', er bod JB yn cydnabod bod natur y clustnodi yn wahanol ar gyfer Llywodraeth yr Alban.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig £227m o amlen gyfan o £275m i gefnogi'r economi wledig ym mis Ebrill gyda'r cyllid yn cefnogi ymrwymiadau craidd y *Rhaglen Lywodraethu* yn bennaf. Mae'r gostyngiad mewn cyllid yn golygu bod rhai penderfyniadau anodd wedi eu gwneud o ran blaenoriaethu.

Bydd gweithdai yn ddiweddarach yn yr Hydref i ymgynghori â rhanddeiliaid ar y ffordd orau o gefnogi datblygiadau gwledig yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys y rhai sy'n cynrychioli grwpiau LEADER.

Mewn ymateb i'r diweddariad gan JB, gwnaeth aelodau y sylwadau canlynol:

- Sefyllfa siomedig ynghylch ariannu a'r sefyllfa o ran datblygiadau lleol o dan arweiniad y gymuned. Pryderu'n fawr am y diffyg cyllid ar gyfer ymyriadau economaidd-gymdeithasol o fath LEADER.
- Yn aml nid yw awdurdodau lleol yn cael eu trin yn yr un modd. Rhwystredig na fydd gan Gymru fynediad at Gynllun Rhannu Ffyniant Lloegr Wledig, sy'n ychwanegol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gyffredinol. Mae rhai awdurdodau lleol nawr yn edrych ar flaenoriaethau buddsoddi Cymunedau Lle  o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyffredinol i gefnogi gweithgarwch gwledig o ganlyniad i'r bylchau ariannu hyn.
- Mae LEADER ers dros 20 mlynedd wedi bod yn faes profi ar gyfer syniadau newydd a ddaeth wedyn yn brif ffrwd. O ble y daw prosiectau arloesi a chynlluniau peilot o hyn ymlaen? Mae diffyg gweledigaeth ar gyfer datblygiadau gwledig.

# 3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Gwahoddwyd Peter Ryland (PR) gan y Cadeirydd i ddarparu diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygiadau gyda'r SPF.

Dywedodd PR mai ychydig o gysylltu fu gyda Llywodraeth y DU yn ystod y mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

diwethaf y tu hwnt i rai gwiriadau diwydrwydd dyladwy sylfaenol ar geisiadau Cronfa Lefelu i Fyny nad ydynt yn arwyddocaol neu'n ystyrlon ar sail cyd-benderfyniadau.

Mae Gweinidogion Cymru mewn lle anodd o ran cyllid gan fod cyllideb Llywodraeth Cymru gryn dipyn yn llai mewn termau real.

Dywedodd PR fod Gweinidogion y DU yn defnyddio Deddf y Farchnad Fewnol i weithredu eu polisïau ledled y DU heb ymgysylltu â llywodraethau datganoledig. Mae hyn yn gwneud dulliau sy'n seiliedig ar le yn anodd ac mae swyddogion yn asesu'r hyn y bydd dull cyllideb y DU yn ei olygu'n ariannol ar gyfer yr agenda Ffyniant Bro. Ychwanegodd PR fod Gweinidog yr Economi yn awyddus i gael adborth parhaus gan y Fforwm.

## 4. Diweddariad llywodraeth leol

Gwahoddodd y Cadeirydd Simon Gale (SG), Carwyn Jones-Evans (CJE), Elliott Williams (EW) a Sioned Williams (SW) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cynlluniau buddsoddi SPF rhanbarthol.

Dywedodd SG fod gan De Ddwyrain Cymru gyfanswm dyraniad SPF o £278.5m ar gyfer tair blynedd y cynllun, sy'n cynnwys £48.1m ar gyfer y rhaglen rhifedd i oedolion, Multiply. Rhondda Cynon Taf fydd prif awdurdod y rhanbarth, a bydd yn derbyn y dyraniad ac yn ymgymryd â'r gwaith o reoli'r Gronfa.

Mae cynllun buddsoddi'r De Ddwyrain wedi dyrannu cyllid ar draws y tri blaenoriaeth buddsoddi SPF craidd fel a ganlyn:

- Cymunedau a Lle - £109m
- Cefnogi busnesau - £52m
- Pobl a Sgiliau - £69m

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r dyraniad craidd yn y cynllun buddsoddi rhanbarthol yn cynnwys tua 30% o gyfalaf a refeniw 70% sy'n gyson â disgwyliadau Llywodraeth y DU.

Mae buddsoddiadau Cymunedau a Lle yn debygol o gynnwys canol trefi, y stryd fawr, mannau gwyrdd a chyfleusterau chwaraeon lleol. Mae cefnogi buddsoddiadau busnes yn debygol o gynnwys canolfannau manwerthu, marchnadoedd agored a chymorth entrepreneuriaeth. Mae buddsoddi mewn pobl a sgiliau yn debygol o gynnwys cymorth cyflogaeth a mentrau sgiliau lleol gan gynnwys sgiliau meddal. Mae'n debygol y bydd rhywfaint o weithgareddau yn cael ei gyflawni gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn meysydd megis twf clystyrau, academi sgiliau sicr a datblygu twristiaeth rhanbarthol.

Dywedodd SG, oherwydd diffyg hyblygrwydd Multiply i gefnogi sgiliau oedolion eraill mae angen gwario'r cyllid sydd ar gael yn heriol iawn ar draws y cyfnod o dair blynedd. Mae pwysau gwirioneddol yn enwedig yn y flwyddyn ariannol gyntaf lle rhagwelir y bydd isafswm y tanwariant ar gyfer Multiply yn 50%, gan leihau i 10% a 5% ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 3 yn dilyn amser i adeiladu capasiti a galw ar ochr y cyflenwr. Mae awdurdodau lleol yn parhau i bwyso am hyblygrwydd o ran defnyddio unrhyw danwariant.

Dywedodd SG bod yr amserlenni ar gyfer SPF yn anodd a bydd symud darpariaeth a staffio yn heriol. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn awyddus i reoli disgwyliadau rhanddeiliaid allanol o ystyried nad yw lefel y cyllid ar yr un raddfa â Chronfeydd Strwythurol yr UE. Ychwanegodd bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau, gan gynnwys trafodaethau manwl gyda'r trydydd sector. Y camau nesaf yw datblygu cytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid a rhoi prosesau llywodraethu ariannol a strategaethau ymgysylltu ar waith.

Ychwanegodd CJE fod y sefyllfa yn y Canolbarth yn debyg o ran y materion sy'n cael eu hwynebu yn arbennig o ran cyfleu'r SPF a rheoli disgwyliadau sectorau allanol.

Ychwanegodd y bydd cynllun buddsoddi'r Canolbarth yn cynnwys cymysgedd o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

weithgarwch lleol a rhanbarthol, a byddai darparu sgiliau yn gweddu prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n mynd rhagddynt. Gan dynnu sylw at y dirwedd ariannu dameidiog, dywedodd CJE ei fod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fapio bylchau yn y ddarpariaeth a nodi risgiau cyflenwi ar gyfer prosiectau presennol.

Dywedodd EW mai Abertawe fyddai'r prif awdurdod yn rhanbarth y De Orllewin ac amlinellwyd dadansoddiad cyllid y cynllun buddsoddi:

- Cymunedau a Lle - £40m
- Pobl a Sgiliau - £36.5M
- Cefnogi Busnesau - £36.5m
- Multiply - £24m

Dywedodd EW bod prosiectau angor yn cael eu datblygu ym mhob un o bedwar awdurdod lleol y De-orllewin a fydd yn cynnwys cynlluniau grant trydydd parti. Bydd y cynlluniau buddsoddi hefyd yn cynnwys prosiectau annibynnol a chomisiynol i gwrdd ag anghenion lleol ac ategu darpariaeth drwy'r prosiectau angori.

Ychwanegodd fod y De Orllewin hefyd yn ceisio ysgogi a rheoli disgwyliadau yn lleol.

Ar ran Gogledd Cymru, nododd SW mai Cyngor Gwynedd fydd yr awdurdod arweiniol. Mae'r cynllun buddsoddi ar lefel uchel ar hyn o bryd ac fe fydd yn cynnwys cynllun rhanbarthol yn ogystal â chwe chynllun lleol. Cynlluniau rhanbarthol fydd y pwynt mynediad ar gyfer cynigion a'r cynlluniau lleol fydd y pwyntiau mynediad ar gyfer syniadau lleol.

Dywedodd SW y bydden nhw'n gwneud defnydd o'r strwythurau presennol ac ar hyn o bryd yn mapio'r rhaglen o ran cyflawni gan gynnwys gwahodd mynegiadau o ddiddordeb.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd darparu sgiliau yn gwneud defnydd o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol bresennol a bydd prosiectau cefnogi busnes yn cynnwys cymysgedd o brosiectau awdurdodau lleol a rhanbarthol.

Ychwanegodd SW y bydd yn her i gyflawni a gwario'r arian gan nodi materion sydd eisoes yn dod o dan sylw, ond mae staff yn gwneud eu gorau mewn amgylchiadau anodd.

# 5. Trafodaeth agored

Gwnaeth aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mae busnesau bach yn gweld yr SPF yn anodd oherwydd yr amserlenni a osodwyd ar lywodraeth leol. Mae'n parhau yn aneglur beth all busnesau gynnig amdano.
- Mae angen mwy o frys ynglŷn ag amserlenni pryd y bydd arian yn cael ei ryddhau. Mae pobl fregus yn wynebu gaeaf anodd iawn ac mae sefydliadau y trydydd sector sy'n eu cefnogi eisoes yn gwneud diswyddiadau oherwydd diffyg cyllid.
- A fydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r SPF i gefnogi eu prosiectau presennol oherwydd heriau mewnol yn y gyllideb?
- Darlun llwm iawn o ran Addysg Uwch. Mae swyddi a thalent yn cael eu colli, ac mae Cymru'n colli galluogwyr a chynhyrchwyr. Addysg Uwch oedd y drydedd elfen fwyaf mewn rhaglenni Ewropeaidd - mae'n bryder mawr colli popeth sydd wedi ei adeiladu.
- Mae TUC Cymru yn gweithio gyda Sefydliad Bevan ar y ffordd orau o leddfu yr argyfwng sydd ar ddod, ac mae'n awyddus i weithio gyda phartneriaid i drafod syniadau allai fod ganddynt.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, gwnaeth cynrychiolwyr llywodraeth leol y pwyntiau canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Does dim arian i'w ddosbarthu eto. Mae llywodraeth leol yn gobeithio cael cynlluniau buddsoddi wedi'u cymeradwyo ac arian wedi ei ryddhau gan Lywodraeth y DU fis nesaf.
- Doedd gan lywodraeth leol ddim rôl yn nyluniad yr SPF - mae Llywodraeth y DU newydd wneud cais iddynt ei weinyddu.
- Nid yw'r SPF yn barhad o raglenni Cronfa Strwythurol Ewrop. Er enghraifft, nid yw meysydd blaenoriaeth buddsoddi yr un fath, felly bydd rhaid cyfaddawdu o ran cyllid.
- Mae amserlenni Llywodraeth y DU yn heriol dros ben.

# 6. Diweddariad ar Horizon Europe a Cymru Ystwyth

Gwahoddodd y Cadeirydd Baudewijn Morgan (BM) a Geraint Green (GG) i roi diweddariad ar gysylltiad y DU â rhaglen ymchwil ac arloesi'r UE, Horizon Europe, a menter Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru.

Dywedodd BM fod y DU yn parhau i fod eisiau bod yn gysylltiedig â Horizon Europe, sy'n werth 100bn ewro dros y saith mlynedd nesaf i fusnesau, y byd academaidd ac awdurdodau lleol.

Ar hyn o bryd does dim newid i'r rhwystr gwleidyddol rhwng yr UE a Llywodraeth y DU y credir ei fod yn cyfeirio at y diffyg cynnydd dros Brotocol Gogledd Iwerddon. Yn y cyfamser, mae sefydliadau'r DU yn dal i allu gwneud cais i'r rhaglen gyda Llywodraeth y DU yn darparu cyllid.

Ychwanegodd BM os na ellir sicrhau cysylltiad â'r rhaglen, y bydd Cynllun B Llywodraeth y DU yn cynnwys defnyddio'r cyllid a glustnodwyd ar gyfer Horizon Europe i gefnogi ymchwil a datblygu domestig. Mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn ansicr a gall Uned Gorwelion Llywodraeth Cymru gefnogi unrhyw sefydliadau sydd wedi eu heffeithio neu â diddordeb mewn datblygu cynigion ymchwil a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

datblygu.

Cyflwynodd GG Cymru Ystwyth a'i nod o gynnal cydweithrediad economaidd rhyngwladol ar ôl Brexit, yn enwedig lle gall cydweithredu rhyngwladol ychwanegu gwerth at gryfderau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol Cymru.

Drwy Cymru Ystwyth, mae arian yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu mentrau cydweithredol gyda rhanbarthau'r UE, Japan ac Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu fframwaith ar gyfer cydweithrediad Môr Iwerddon gyda llywodraethau datganoledig eraill a all arwain camau gweithredu yn y dyfodol yn y maes hwn.

Ychwanegodd GG mai'r camau nesaf i Cymru Ystwyth oedd cynnal gweithdy Môr Iwerddon ym mis Tachwedd, archwilio'r potensial ar gyfer galwadau cyllid dwyochrog neu amlochrog yn y dyfodol gyda rhanbarthau a gwledydd pwysig, ac i gynyddu gweithgarwch lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

## 7. Unrhyw fusnes arall a chyfarfodydd y dyfodol

Ni chodwyd unrhyw fusnes pellach. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am barhau i gymryd rhan yn y Fforwm a dywedodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ganol mis Tachwedd gyda'r Gweinidog Economi yn bresennol.

## Atodiad A: rhestr o mynychwyr

## Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Aelodau

| Sefydliad | Enw |
|---|---|
| Rhwydwaith Gwledig Cymru | Eirlys Lloyd, Cadeirydd |
| Grahame Guilford and Company Ltd | Grahame Guilford |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Hywel Edwards |
| Addysg Uwch | Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru |
| Ffederasiwn Hunangyflogedig a Busnesau Bach Cymru | Ashley Rogers, Cyfarwyddwr – Gill and Shaw |
| Prifysgol Caerdydd | Kevin Morgan, Athro Llywodraethu a Datblygu, Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio |
| CLILC | Lowri Gwilym, Rheolwr Tîm – Ewrop ac Adfywio |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Rhianne Jones, Prif Ymgynghorydd Arbenigol Ymadael a Rheoli Tir yr UE |
| Undeb Llafur | Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol dros dro, TUC Cymru |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Sefydliad | Enw |
|---|---|
| Partneriaeth y trydydd sector | Matt Brown, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, CGGC |
| Siambrau Cymru | Paul Slevin, Llywydd, Canolbarth a De Cymru |
| Y Trydydd Sector (menter cymdeithasol) | Derek Walker, Prif Weithredwr, Cwmpas |
| Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Y Cyngh James Gibson-Watt, Arweinydd, Cyngor Powys |
| Partneriaeth Gogledd Cymru | Y Cyngh Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Llywodraeth Leol | Simon Gale, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Elliott Williams, Cyngor Abertawe<br><br>Sioned Williams, Cyngor Gwynedd |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Mynychwyr o Lywodraeth Cymru

| Enw | Swydd ac adran |
|---|---|
| Peter Ryland | WEFO – Prif Swyddog Gweithredol |
| Geraint Green | WEFO – Pennaeth Rheoli Rhaglen (Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd) |
| Alison Sandford | WEFO – Pennaeth Polisi a Gwaith Partneriaeth |
| Mike Richards | WEFO – Rheolwr Cyfathrebu |
| Thomas Mallam-Brown | WEFO – Uwch Swyddog Polisi (Polisi Rhanbarthol) |
| Baudewijn Morgan | WEFO – Pennaeth Uned Horizon Europe |
| Simon Edwards | ETC – Dirprwy Bennaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol |
| James Burgess | Adran Datblygu Gwledig – Cyfarwyddwr Cynorthwyol r |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-29-medi-2022-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.